



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Llun, 26 Chwefror 2024 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

A J Jeffery
L V Walton

Y Cyngorydd(wyr)

H Lawson

Y Cyngorydd(wyr)

A J O'Connor

Swyddog(ion)

Michelle Apthorpe

Lee Cambule

Julie Davies

Sally-Ann Evans

Mark Gosney

Amy Hawkins

Simon Jones

Allison Lowe

Helen Williams

Rheolwr Tîm Plant a Theuluoedd y Gwasanaethau
Cymdeithasol

Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi

Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
cyfreithiwr arweiniol

Arweinydd Tîm Comisiynu

Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion

Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

Prif Swyddog - Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc

Hefyd yn bresennol

L S Gibbard

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): M Baker

29 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

30 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

31 Gwyliau Byr.

Cyflwynodd Prif Swyddog Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc, gyda chefnogaeth Arweinydd y Tîm Comisiynu a Rheolwr yr Hwb adroddiad a oedd yn cyflwyno datblygiad y gwasanaethau mewn perthynas â darpariaeth seibiannau byr i blant a theuluoedd.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ymrwymiad, y weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn perthynas â threfniadau seibiant byr ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledau ac anghenion ychwanegol a'u rhieni/gofalwyr. Amlinellodd hefyd sut y maent yn bwriadu sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn llywio arfer a sut y byddai gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u haddasu os neu pan fydd anghenion yn newid.

Codwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ble y cafwyd y ffynonellau ariannu amrywiol;
- A oedd cap ar nifer y seibiannau byr y gallai teulu/plentyn eu cymryd ac a oedd unrhyw amseroedd aros;
- A oedd pob teulu yn ymwybodol o'r holl opsiynau oedd ar gael iddo;
- Y posibilrwydd o sesiynau arbenigol neu well mewn cyfleusterau diwylliannol, e.e. Oriellau ac Amgueddfeydd;
- Nifer y gwelyau sydd ar gael, sut y cawsant eu comisiynu, a oeddent yn cynnig gwerth am arian ac a oeddent yn ateb y galw;
- Sut y defnyddiwyd taliadau uniongyrchol.

Ymatebodd y swyddogion i bob pwynt yn fanwl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad ar ôl i'r Adolygiad Comisiynu gael ei gwblhau.

Penderfynwyd bod Pwyllgor Trawsnewid y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi:

- 1) yn nodi cynnwys y broses adolygu sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd ac
- 2) yn rhoi eu barn ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn.

32 Strategaeth Trechu Tlodi. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Prif Swyddog y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi, gyflwyniad Powerpoint ar y gwaith a wnaed mewn perthynas ag adnewyddu Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor (2024-2028). Byddai'n cael ei hadnewyddu mewn partneriaeth â phartneriaid a phobl drwy gydweithio i fynd i'r afael ag achosion ac effaith tlodi ar bobl a chymunedau, gan ddileu anghydraddoldebau i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan dlodi.

Eglurodd fod arolwg cyhoeddus wedi'i gynnal rhwng Awst a Medi 2023 i roi adborth ar y strategaeth a'r ffordd ymlaen. Derbyniwyd dros 300 o ymatebion a rhannwyd sawl sylw a wnaed yn ystod yr arolwg â'r Pwyllgor.

Nodwyd y 7 blaenoriaeth allweddol sy'n dod i'r amlwg fel a ganlyn:

- Cynhwysiad digidol
- Cefnogaeth y gymuned
- Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad
- Stigma a gwahaniaethu
- Tlodi Plant
- Digartrefedd
- Iechyd a Lles

Yna amlinellodd y Prif Swyddog y ffordd ymlaen a oedd yn cynnwys:

- Sicrhau'r ymagwedd bod tlodi'n 'berthnasol i bawb' (ac nid cyfrifoldeb Cyngor Abertawe yn unig)
- Byddai 3 rhifyn gwahanol o'r strategaeth yn cael eu datblygu
- Byddai'n cael ei hadeiladu o amgylch y daith, nodweddion, dulliau a llwybrau
- Byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei gyd-gynhyrchu â phobl â phrofiad personol;
- Byddai ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion allweddol yn cael ei gynnal.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau a gofynnodd gwestiynau yr ymatebodd y Prif Swyddog iddynt yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog a Phennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach pan fyddant ar gael.

33 Cynllun Gwaith 2023-2024.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

Penderfynwyd y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.56 pm

Cadeirydd